OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1191 (Cy.127)

# CYFLOGAETHA HYFFORDDIANT, CYMRU

## Gorchymyn Prentisiaethau (Dynodi Awdurdod Ardystio Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *20 Mai 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *23 Mai 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *23 Mehefin 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 10(1)(b) a (3), ac adran 262(3) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prentisiaethau (Dynodi Awdurdod Ardystio Cymru) 2013 a daw i rym ar 23 Mehefin 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dynodi Awdurdod Ardystio Cymru**

**2.** Yn unol ag adran 10(1)(b) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 mae Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector wedi ei ddynodi'n 'awdurdod ardystio Cymru' i ddyroddi tystysgrifau prentisiaeth yn gyffredinol.

*Jeff Cuthbert*
O dan awdurdod y Gweinidog Addysg a Sgiliau,
un o Weinidogion Cymru

20 Mai 2013

(**1**) 2009 p.22.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn))*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed o dan adran 10 o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("y Ddeddf"), yn dynodi Cynghrair y Cynghorau Sgiliau Sector yn 'awdurdod ardystio Cymru' i ddyroddi tystysgrifau prentisiaeth yn gyffredinol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhan o'r broses o roi'r rhaglen brentisiaethau statudol yn Rhan 1 o Bennod 1 o'r Ddeddf ar waith.